**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun, Ionawr 11eg 2016 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Philip Stevens a Brian Davies.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf 2016 a dymunodd Blwyddyn newydd Dda i bawb. Croesawodd y cadeirydd Catrin Gilkes y Cyfieithydd.

**155. Datganiad Diddordeb Personol.** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Medwyn Williams - unrhyw fater ynglŷn ag Amgueddfa Dinbych - personol.
(2) Cyng Gaynor Morgan Rees - unrhyw fater ynglŷn ag Amgueddfa Dinbych - personol.
(3) Cyng Colin Hughes - unrhyw fater ynglŷn â Chyngor Sir Ddinbych - personol.
(4) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater ynglŷn â Chyngor Sir Ddinbych - personol.

**156. Gweinyddiaeth y cyngor yn y dyfodol.** Darllenodd y cadeirydd lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Glerc y Dref yn datgan ei fwriad i ymddeol fel Clerc y Dref a SAC yn effeithiol o Fai 31ain 2016. Dywedodd y cadeirydd ei fod yn drist o dderbyn y llythyr yn dilyn gwasanaeth clerc y dref dros 16 mlynedd i'r cyngor a thref Dinbych. Aeth y cadeirydd ymlaen i ddweud bod angen digon o amser i adolygu proffil y swydd ac awgrymodd y dylai pwyllgor bach gael ei sefydlu i drafod y mater yn fanylach. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y Maer a'r Dirprwy Faer ynghyd a chadeirydd y Pwyllgor Amgylched a Chyllid y Cyng Colin Hughes, cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio y Cyng Mark Young a'r Cyng Roy Tickle yn cyfarfod mor fuan ag y bo modd i drafod y mater ymhellach ac i adolygu'r disgrifiad gwaith / cyfrifoldebau cyn paratoi hysbyseb swydd addas ar gyfer olynydd i Glerc y Dref.** Bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r apwyntiad yn cael ei wneud gan y cyngor llawn.

**157. Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad ariannol misol ar gyfer y cyfnod 1.4.15 - 31.3.16 fel ac yr oedd ar 31.12.15.**

**158. Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad ariannol naw mis 1.4.15 -31.12.15**

**159. Cyllideb 2016 / 2017.** Cyfeiriodd y cadeirydd at y dogfennau a ddosbarthwyd ar gyfer trafod a gosod cyllideb gwariant y cyngor tref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016 / 2017.
Ar gais y cadeirydd eglurodd clerc y dref pwrpas pob un o'r dogfennau a dderbyniwyd.
Tra'n cyfeirio at y dogfennau a baratowyd aeth yr aelodau ymlaen i archwilio a thrafod pob pennawd oedd yn gynwysedig o fewn y gyllideb ac i osod ffigwr ar gyfer pob un.
Cafwyd cryn drafodaeth ar nifer o'r penawdau pan fynegwyd gwahanol sylwadau. Wedi cyrraedd penderfyniad ar bob pennawd a'r cyfanswm o hynny cytunwyd, er mwyn cyflwyno cyllideb oedd yn gyraeddadwy, fod angen ail edrych ar bob pennawd.
Wedi ail drafod pob pennawd daeth cyfanswm y penawdau i £201,100. Roedd y ffigwr yma yn cymharu â ffigwr o £195,400 ar gyfer cyllideb 2015 / 2016, sef cynnydd o £5,700 neu 2.917%. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **cymeradwyo cyllideb gwariant o £ 201,100**

**ar gyfer blwyddyn ariannol 2016 / 2017.** Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r cyngor fod yn dra phwyllog os oedd y gwariant i ddod o fewn y gyllideb a glustnodwyd.

Trafodwyd lwfans y Maer a'r Dirprwy faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016/2017. Cynigodd y Cyng Medwyn Williams, eiliwyd gan y Cyng Gaynor Morgan Rees fod y lwfansau yn parhau yn y symiau o £1,300 ar gyfer y Maer a £200 ar gyfer y Dirprwy Faer. Cynigodd y Cyng Colin L Hughes, eiliwyd gan y Cyng Rob Parkes i godi'r lwfansau i £1,500 a £250 yn ôl eu trefn. Cynigodd y Cyng Colin Hughes ail welliant i godi'r lwfansau i £1,350 a £225 yn ôl eu trefn ond methodd a chael eilydd. Cafwyd pleidlais gyda 3 yn pleidleisio i'r gwelliant a 7 o blaid y cynnig - y cynnig yn cael ei dderbyn. **Penderfynwyd bod lwfans y Maer yn parhau yn y swm o £1,300 a lwfans y Dirprwy Faer yn parhau yn y swm o £200.**

**160. Archebiant 2016 / 2017.** Yn dilyn ymlaen o'r trafodaethau ar y gyllideb, trafodwyd y mater o osod ffigwr archebiant i gyfarfod anghenion gwariant y cyngor ac edrychwyd ar y gwahanol opsiynau. Dywedodd clerc y dref fod y ffigwr archebiant presennol yn £57 a'r trydydd archebiant uchaf yn y sir tu ôl i Bodelwyddan (£64.62) a Prestatyn (£59.84). Ar ddiwedd y trafod **c**ynigodd y Cyng Raymond Bartley, eiliwyd gan y Cyng Mark Young fod ffigwr yr archebiant yn aros yn y swm o £57 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017 a'r gweddill oedd ei angen yn cael ei dynnu i lawr o arian wrth gefn y cyngor. Cynigodd y Cyng Colin Hughes welliant, eiliwyd gan y Cyng Medwyn Williams, i godi ffigwr yr archebiant £2 i £59 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017. Cynhaliwyd pleidlais gyda tri yn pleidleisio o blaid y gwelliant a saith yn pleidleisio o blaid y cynnig - y cynnig yn cael ei dderbyn. Felly **Penderfynwyd cadw'r ffigwr archebiant yn y swm o £57 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016 / 2017.** Bydd y ffigwr archebiant yn cynhyrchu incwm o **£189,126** fyddai'n golygu tynnu i lawr **£11,974** o arian wrth gefn y cyngor.

Am nad oedd mwy i drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.56 o'r gloch.

Arwyddwyd: ……………………………………………………………………………..(Cadeirydd)

Dyddiad: ………………………..